**Rhys Mwyn**

# Hen Recordiau Cymraeg


Yn ystod yr wythdegau, fe drefnwyd ambell 'Ffair Recordiau Cymraeg' ar y cyd rhwng Cymdeithas yr Iaith a chriw o labeli Annibynnol fel Recordiau Anhrefn, Fflach, Sain, Ankst. Ar y pryd, recordiau feinyl oedd yn cael eu rhyddhau beth bynnag, a doedd y CD ddim yn gyfrwng arferol ar gyfer rhyddhau cerddoriaeth, a bwriad y ffeiriau oedd creu diddordeb mewn cerddoriaeth Gymraeg ac, yn fwy pwysig, trio denu mwy o brynwyr. Os dwi'n cofio'n iawn, fe drefnwyd Ffair yn neuaddau'r Coleg Normal ym Mangor, yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth ac yng Nghlwb Ifor Bach, Caerdydd.

Yn y Normal y cynhaliwyd y gyntaf, ac o bosib, hon oedd y ffair fwyaf llwyddiannus. Daeth nifer draw oedd yn chwilio am recordiau penodol; roedd llawer yno i lenwi'r bylchau yn eu casgliad ac os dwi'n cofio'n iawn, cawsom ddiwrnod da o werthiant, llawer o drafod a chyfle i gychwyn gwerthuso / prisio a gweld beth oedd beth o fewn y farchnad.

Yn y bon, mae natur ffair recordiau yn tueddu i ddethol y gynulleidfa yn weddol naturiol a dim ond y rhai sydd 'o ddifri' am gerddoriaeth sydd yn debygol o droi i fyny, a felly dwi'n ei chofio hi. Felly, er mai feinyl oedd y cyfrwng, roedd rhan helaeth o'r casglwyr yno i brynu cerddoriaeth gyfoes, tra roedd leiafrif wedi dod i chwilio am recordiau cynnar *Meic Stevens* neu'r *Dyniadon…*

Erbyn heddiw mae'r sefyllfa wedi newid yn llwyr gyda dyfodiad y CD. Felly, mae pobl sydd yn dymuno prynu recordiau cyfoes yn debygol o brynu CD ac mae feinyl bron yn llwyr bellach yn gyfrwng i'r casglwyr. Ychydig iawn o recordiau sydd bellach yn cael eu cyhoeddi ar feinyl, er fod ambell grŵp, fel y *Super Furry Animals* yn gwneud pwynt o ryddhau eu caneuon ar sawl fformat. Daeth y record hir Gymraeg *'Mwng'* allan ar CD a feinyl 12" (*Placid Casual* PLC03LP) ym 2000 ac o bosib, hon fydd y record hir olaf i'w chyhoeddi ar feinyl yn yr iaith Gymraeg – cawn weld!

Dros y blynyddoedd diwetha mae yna farchnad fach ond pendant wedi cychwyn datblygu, gyda'r diddordeb mwyaf wedi bod mewn artistiaid fel *Meic Stevens*, *Tebot Piws* a'r cyfnod 'pync' ar ddiwedd y 70au. Mae yna sawl casglwr ar gyfer recordiau *Meic Stevens* ac, i wneud pethau'n ddiddorol, mae ef ei hun yn tueddu i ail recordio caneuon Cymraeg yn y Saesneg a wedyn eu rhyddhau ar labeli gwahanol. Felly, mae'n ddigon posib fod yna recordiau Cymraeg gan Stevens wedi eu rhyddhau ar label Sain yn bod fel recordiau hollol wahanol yn Saesneg ar label arall, er yn y bon yr un yw'r caneuon, ac yn sicr yr un yw'r gerddoriaeth cefndir. Y peth arall am Stevens yw ei fod wedi bod yn hynod gynhyrchiol dros y blynyddoedd ac felly mae digon o gynnyrch i chwilio amdano, os yw rhywun yn penderfynu cychwyn casglu recordiau Meic. Awgrymaf fod unrhyw un sydd am fynd ar drywydd Meic Stevens yn cysylltu â'r archifydd pop Gary Melville fel man cychwyn. Mae recordiau *Bara Menyn* yn dod i'r wyneb bob hyn a hyn ond mae'r record hir *'Outlander'* yn hynod brin ac yn gwerthu am o leiaf £200.




Gary Melville hefyd oedd rheolwr y grŵp pync cyntaf yn y Gymraeg, sef y *Llygod Ffyrnig* a rhyddhawyd sengl 7" yn cynnwys y caneuon *'NCB'*, *'Sais'* a *'Cariad y Bus Stop'* ym 1978 ar Label Pwdwr (Pwdwr 1). Erbyn heddiw mae *'NCB'* yn hynod gasgladwy ac yn brin iawn. Efallai i'r *Llygod Ffyrnig* ryddhau dipyn llai o ganeuon na *Meic Stevens*, ond mae eu recordiau yr un mor gasgladwy, ac os yw rhywun am lenwi'r bylchau mae'n rhaid dod o hyd i record hir o'r enw *'Labels Unlimited'* a gyhoeddwyd ar label *Cherry Red* (A RED 4) ym 1979.

Ochr yn ochr â rhai o fawrion y don newydd Brydeinig, mae *'NCB'* gan *Y Llygod Ffyrnig* i'w chlywed ar y record hir yma. Yn ddiddorol mae dal dipyn o alw am y record yma dros y byd ond does gan *Cherry Red* ddim bwriad i ail ryddhau y casgliad ar CD. Yr unig recordiad arall y gwn amdano gan y *Llygod Ffyrnig* yw sesiwn a recordiwyd ar gyfer Sain Abertawe gan Aled Glynne Davies, sydd bellach yn olygydd Radio Cymru. Rhyddhawyd y sengl *'NCB'* ar 16 Chwefror 1978 a mae'n debyg i'r sesiwn ar gyfer Sain Abertawe gael ei recordio ym 1979.

Felly, mae'r sesiwn i Sain Abertawe yn cynnwys fersiynau byw ychydig yn wahanol i'r sengl o'r caneuon *'NCB'*, *'Sais'* a *'Cariad y Bus Stop'* yn ogystal ag un gân sydd ddim ar gael fel arall ar unrhyw record, *'Merched Glanllyn'*. Bellach mae record 7" wedi ei chyhoeddi o'r sesiwn Sain Abertawe gan Label *Incognito* o Stuttgart yn yr Almaen ar y cyd â Label *Crai* (Crai 056). Mae'r record yma ar gael drwy Sain.

Yn sicr, y grŵp sydd wedi gwneud mwyaf o argraff dramor hyd yma yw'r *Trwynau Coch*. Eto mae eu record gyntaf *'Merched Dan Bymtheg'* a'r record feinyl coch 12" *Angela*, bellach yn recordiau lle mae dipyn o alw amdanynt er fod y rhan fwyaf o ganeuon y Trwynau wedi eu rhyddhau ar CD yn ddiweddar *'Trwynau Coch, Y Casgliad'* (Crai CD046). Un record sydd wedi gwerthu yn dda, yn enwedig yn yr Iseldiroedd, yw'r sengl *'Methu Dawnsio'* gan y Trwynau gyda *'Phutain Rhad'* gan Crach ar yr Ochr B (RCTC 3). Mae ambell gopi o'r record yma wedi dod ar y farchnad yn ddiweddar, ond mae rhan helaeth ohonynt wedi eu gwerthu yn syth i gasglwyr ar y Cyfandir.

Yn sgil y diddordeb yma, cyhoeddwyd casgliad ar feinyl 12" gan y Trwynau ar label LDK (LDK LP6) yn yr Iseldiroedd sydd yn cynnwys y caneuon *'Merched Dan 15'*, *'Byw ar arian fy rhieni'*; *'Mynd i'r Capel mewn Levis'*; *'Ail ddechre'*; *'Wastad ar y tu fas'*; *'Mynd a Julie i'r ddawns'*; *'Pawb yn pigo arna i'*; *'Mynd i'r Bala mewn cwch bananas'*; *'Methu dawnsio'*; *'Radio Cymru'*; *'Byth mynd i golli'*; *'Angela'* a *'Colli Ti a Pepsi Cola'*. Mae'r record yma ar gael trwy gysylltu â baytree@wanadoo.nl.

Rheswm arall fod cymaint o'r recordiau yma yn gallu bod yn brin yw mai ond tua 500 oedd yn cael eu gwasgu yn aml iawn. Yn achos *'NCB'* y *Llygod Ffyrnig*, mae'r gwasgiad cyntaf yn cynnwys label gwyrdd gyda llun llygoden arno ond mae'n debyg fod yr argraffiad nesa gyda label wedi ei brintio gan y grŵp ei hun mewn dull 'DIY', felly mae rhywun yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddau argraffiad.




Pob hyn a hyn mae rhywun yn ffonio yn chwilio am *'Draenog Marw'* gan Crysbas. Fel rwyf yn cyfansoddi'r erthygl yma mae rhywun arall yn cysylltu gan ymholi am un o recordiau David Lloyd.

Os oes gennych hen recordiau cysylltwch â Rhys Mwyn ar (01286) 831111 neu crai@sain.wales.com

